| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Ymarfer Darllen a Deall yn seiliedig ar yr E-lyfr ‘Plentyndod Dylan Thomas’ |
| Disgrifiad: | Cwestiynau darllen a deall sy’n seiliedig ar yr e-lyfr uchod. |
| Grwpiau blwyddyn | CA3 - Blwyddyn 7 |
| Cysylltiad â’r FfLlRh: | Darllen<br>Ymateb i’r hyn a ddarllenwyd<br>Darllen a deall (Blwyddyn 7 – 9)<br>• canolbwyntio wrth ddarllen testunau … sy’n newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt |
| Adnoddau sydd eu hangen: | E-lyfr ‘Plentyndod Dylan Thomas’<br>http://www.rockandrollpoet.co.uk/ebook/index-cym.html |
| Trefn addysgu: | • Gellid darllen yr e-lyfr fel dosbarth ar yr un pryd neu fesul tipyn. Dewis arall fyddai gosod y gwaith darllen fel gwaith cartref.<br>• Darllen drwy’r cwestiynau i sicrhau bod pawb yn eu deall.<br>• Gweithio drwy’r cwestiynau. |
| Gweithgareddau estyn: | • Ysgrifennu cofnod dyddiadur Dylan yn seiliedig ar yr e-lyfr, e.e. hanes y ddamwain ar y beic newydd.<br>• Parau o ddysgwyr yn llunio cwestiynau i’w gilydd yn seiliedig ar yr e-lyfr. Gellid pennu bod rhaid defnyddio pob un o’r geiriau gofynnol hyn unwaith: Pwy, Beth, Sut, Pam, Pryd, Faint. |